Image not found or type unknown

# Cwestiynau cyffredin - Arolwg Dweud Eich Dweud

Cyhoeddwyd gyntaf: 15 November 2023

Diweddariad olaf: 3 December 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/ymchwil-a-data/dweud-eich-dweud/cwestiynau-cyffredin---arolwg-dweud-eich-dweud am y fersiwn diweddaraf.

Dweud Eich Dweud yw ein harolwg blynyddol o'r gweithlu gofal cymdeithasol.

Byddwn ni'n lansio arolwg 2025 ym mis Ionawr.

Mae'r arolwg yn gofyn cwestiynau am bethau fel iechyd a llesiant, cyflog ac amodau, hyfforddiant, cymwysterau ac anghenion datblygu.

## Pam ydyn ni'n cynnal yr arolwg hwn?

Dangos

Rydyn ni’n cynnal yr arolwg hwn er mwyn monitro tueddiadau o ran beth mae pobl yn ei feddwl am weithio ym maes gofal cymdeithasol.

Bydd y canfyddiadau'n helpu i lunio'r cymorth rydyn ni a'n partneriaid yn ei gynnig, yn ogystal â thynnu sylw at faterion pwysig i lunwyr polisi yn Llywodraeth Cymru.

## Beth mae'r arolwg yn ei ofyn?

Dangos

Yn union fel rydyn ni wedi'i gwneud o'r blaen, rydyn ni'n gofyn cwestiynau am bethau fel eich iechyd a'ch llesiant, cyflog ac amodau, hyfforddiant, cymwysterau ac anghenion datblygu.

Rydyn ni eisiau darganfod mwy am beth mae pobl yn ei hoffi am weithio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru, a lle mae angen mwy o gefnogaeth.

## Pwy sy'n cynnal yr arolwg?

Dangos

Rydyn ni’n gweithio gyda'r Athro Jermaine Ravalier yn Buckinghamshire New University i gynnal arolwg eleni.

Mae'r Athro Ravalier yn ymchwilydd blaenllaw sy'n edrych ar amodau gwaith a llesiant gweithwyr gofal cymdeithasol.

Bydd ein partneriaeth yn ein galluogi ni i gymharu ein canfyddiadau â data ar y gweithlu o ar draws Cymru, y DU a ledled y byd, i nodi tueddiadau neu wahaniaethau ym mhrofiadau gweithwyr.

Fe wnaeth yr Athro Ravalier arwain arolwg 2024 hefyd.

## Ble bydd yr arolwg yn cael ei gynnal?

Dangos

Bydd yr arolwg yn cael ei gynnal ar y platfform Online Surveys.

## Sut alla i gymryd rhan?

Dangos

Os ydych chi'n weithiwr gofal cymdeithasol cofrestredig, byddwn ni mewn cysylltiad â mwy o wybodaeth am sut i gymryd rhan pan fydd yr arolwg yn mynd yn fyw ym mis Ionawr.

Os nad ydych chi ar ein Cofrestr, cadwch lygad ar ein gwefan a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol am ragor o wybodaeth.

Bydd pawb sy'n cwblhau'r arolwg yn cael cyfle i gymryd rhan mewn raffl i ennill taleb siopa gwerth £20.

## Pam fod fy marn yn bwysig?

Dangos

Rydyn ni am i bobl o bob oedran, cefndir a rôl gofal cymdeithasol gymryd rhan yn yr arolwg hwn.

Bydd eich barn yn bwysig i roi darlun sy’n wir gynrychioli sut brofiad yw gweithio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru heddiw.

Bydd dweud wrthym ni beth rydych chi'n ei feddwl yn helpu i lunio'r gefnogaeth rydyn ni a'n partneriaid yn ei gynnig.

## Pwy sy'n gweld fy nata i?

Dangos

Bydd y wybodaeth rydyn ni'n casglu yn cael ei defnyddio ar gyfer ymchwil yn unig ac i baratoi ystadegau am y gweithlu. Mae eich manylion cyswllt yn cael eu cadw ar wahân i'ch atebion a bydden nhw ddim yn cael eu trosglwyddo i unrhyw un y tu allan i'r prosiect ymchwil. Mae'r arolwg yn gwbl anhysbys - fydd neb yn gwybod pwy sydd wedi cymryd rhan.

Bydd eich atebion yn cael eu cyfuno â rhai pobl eraill sy'n cymryd rhan yn yr arolwg. Yna, bydd yr ymcwhilwyr yn anfon y canlyniadau a'r dadansoddiad atom ni, a byddwn ni'n eu cyhoeddi mewn adroddiad ar ein gwefan. Ni fydd hwn yn cynnwys eich enw na'ch manylion cyswllt, ac ni fydd modd adnabod unrhyw unigolyn o'r canlyniadau.

Bydd data dienw o adrannau penodol o'r arolwg hefyd yn cael ei rannu â Llywodraeth Cymru i lywio Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu.

Ni fyddwch yn derbyn unrhyw 'junk mail' o ganlyniad i gymryd rhan.

## Sut fydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio?

Dangos

Byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth rydyn ni'n casglu i'n helpu i benderfynu sut gallwn ni a'n partneriaid gynnig y gefnogaeth orau i chi yn eich gwaith. Byddwn ni'n rhannu ein canfyddiadau â Llywodraeth Cymru a sefydliadau cenedlaethol eraill i sicrhau bod llunwyr polisi yn clywed eich llais.

Byddwn ni hefyd yn defnyddio'r data i gymharu canfyddiadau ar draws gwahanol rolau swyddi a gwledydd. Bydd hyn wedyn yn cael ei gyhoeddi mewn adroddiad ar ein gwefan.

## Oes rhaid i mi gymryd rhan?

Dangos

Nac oes – mae'n gwbl wirfoddol.

Ond bydden ni'n eich annog i ateb cymaint o'r cwestiynau ag yr ydych yn teimlo'n gyfforddus â nhw.

Y mwyaf cyflawn yw'r wybodaeth rydyn ni'n ei gasglu, y mwyaf defnyddiol yw hi pan fyddwn ni'n dadansoddi'r canlyniadau ac yn ymateb i'r canfyddiadau.

## Beth oedd canlyniadau arolwg 2024?

Dangos

Ym mis Hydref fe wnaethon ni gyhoeddi canlyniadau arolwg 2024. Fe wnaeth yr ymchwil hynny darganfod bod gweithwyr gofal cymdeithasol yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy am y gwaith maen nhw'n ei wneud nag yn 2023, ond bod eu llesiant yn waeth na chyfartaledd y DU.

Rydyn ni hefyd wedi defnyddio canfyddiadau'r arolygon blaenorol i greu briffiau sy'n crynhoi ac yn amlygu gwybodaeth allweddol am y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Ewch i'n gwefan Grŵp Gwybodaeth i ddarganfod mwy am wella telerau ac amodau ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru, a gwerthfawrogi gwaith gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Angen mwy o wybodaeth?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am arolwg Dweud Eich Dweud 2025, cysylltwch â SCWsurvey@bathspa.ac.uk.

## Darganfod mwy am arolwg 2025